Yr Eliffant a'r dynion dall

Gwrando ar eraill / Ymddiriedaeth

Daeth chwech o ddynion dall i'r goedwig. Roedd pob un ohonyn nhw'n eiddgar iawn i ddysgu am y byd o'u cwmpas. Ond roedd y chwech ohonyn nhw'n ddall – doedden nhw'n gweld dim byd. Ar ôl cyrraedd y goedwig rhedodd bachgen bach atyn nhw a dweud. "Dowch i weld yr eliffant mawr. Dowch i weld! Dowch i weld!"

"Os gwn i beth ydi eliffant?" gofynnodd un o'r dynion dall i'r lleill.

"Wn i ddim ond fe awn ni efo'r bachgen bach i ni gael gweld," meddai un o'r lleill.

"Gweld?" meddai un arall o'r dynion. "Dydyn ni ddim yn gweld ond fe allwn ni ei deimlo."

A ffwrdd â nhw ar ôl y bachgen bach. Ar ei ffordd dyma un o'r dynion dall yn taro'n erbyn ochr galed yr eliffant. Gwaeddodd dros y lle. "Bobol bach mae'r eliffant yn debyg i wal solat!"

"Nag ydi wir," meddai'r ail ddyn dall. Roedd ef wedi gafael yn ysgithr yr eliffant. Teimlodd hyd yr ysgithr. Roedd o'n llyfn ac yn esmwyth ond roedd ganddo flaen miniog. "Mae'r eliffant yn debyg iawn i waywffon," meddai.

Gafaelodd y trydydd dyn dall yn nhrwnc yr eliffant. Mae hwn yn llyfn iawn. "Mae'r eliffant yn debyg i neidr fawr," meddai.

Roedd pob un o'r dynion dall wedi gafael mewn gwahanol rannau o gorff mawr yr eliffant.

Trawodd y pedwerydd dyn dall yn erbyn coes yr eliffant ac roedd yn sicr bod yr eliffant fel coeden fawr. Gwaeddodd dros y lle. "Mae'r eliffant yn debyg i goeden fawr."

Gafaelodd y pumed dyn dall yng nghlust yr eliffant. Gwaeddodd ar y lleill. "Mae'r eliffant yn debyg iawn i wyntyll. Mi fydd hwn yn help i mi pan fydd y tywydd yn boeth."

Bu'r chweched dyn dall yn chwilio a chwilio am hir. O'r diwedd daeth ar draws cynffon yr eliffant. Gwaeddodd ar y lleill. "Mae'r eliffant yn debyg iawn i raff hir."

Drwy'r dydd bu'r dynion dall yn dadlau ymhlith ei gilydd. Drwy'r nos bu'r dynion dall yn dadlau ymhlith ei gilydd. Roedd pob un yn dweud. "Y fi sydd yn iawn, rydych chi i gyd yn anghywir."
Ac felly y buo nhw am ddyddiau, "Y fi sy'n iawn, y fi sy'n iawn, y fi sy'n iawn. Rydych chi i gyd yn anghywir."

O Dduw, gwna fi'n barod i wrando ar yr hyn sydd gan bobl eraill i'w ddweud. Amen.

✦ Fedrwch chi ysgrifennu stori debyg i hon gan ddefnyddio anifail arall.
✦ Beth ydi neges y stori tybed?